# UG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
# Uned 3 - Gwaith-chwarae a rôl y gweithiwr chwarae

## Beth yw gwaith-chwarae?

Mae gwaith-chwarae yn ddull o weithio gyda phlant lle mae plant yn pennu ac yn rheoli cynnwys a bwriadau eu chwarae, yn hytrach na chael eu harwain, neu eu cyfarwyddo gan oedolion. Mae'r broses chwarae ar gyfer plant yn cynnwys archwilio, darganfod pethau, profi eu sgiliau a'u galluoedd eu hunain, dysgu o'u llwyddiannau a'u camgymeriadau i feithrin gwytnwch, sgiliau datrys problemau a meddwl yn greadigol. Trwy chwarae, mae plant yn dysgu am risg. Mae hon yn elfen hanfodol o hyder, hunan-barch a chymhwysedd. Mae chwarae yn wasanaeth sy'n cael ei chynllunio gan oedolion ar gyfer plant.

## Rôl y gweithiwr chwarae

Mae profiadau chwarae plant yn cael eu cyfoethogi gan weithwyr chwarae medrus sy'n gallu troi gofodau chwarae yn ofod o gyfle, dychymyg a pherthyn. Mae gwaith-chwarae yn broffesiwn. Mae gweithwyr chwarae'n hyfforddi i wneud eu gwaith ac yn ennill cymwysterau mewn gwaith-chwarae. Mae gweithwyr chwarae'n creu cyfleoedd a gofodau lle gall plant a phobl ifanc chwarae'n rhydd, yn hyderus, a gydag ystod eang o gyfleoedd a phosibiliadau – lle mae'r oedolion dan sylw yn deall natur a phwysigrwydd pob agwedd ar chwarae plant ac yn gweithio i'w gefnogi. Nid yw gweithwyr chwarae yn chwarae gyda phlant, maen nhw'n caniatáu i blant ymestyn eu chwarae eu hunain ac maen nhw'n gwarchod ac yn gwella'r gofod chwarae fel ei fod yn amgylchedd chwarae cyfoethog. Mae gweithwyr chwarae'n sicrhau bod y gofod chwarae'n gynhwysol – gan gefnogi pob plentyn i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael yn eu ffordd eu hunain. Mae gweithwyr chwarae'n deall yr angen i blant brofi risg a her fel rhan o'u chwarae. Nid yw gweithwyr chwarae yn cyfarwyddo nac yn trefnu chwarae; maen nhw wedi'u hyfforddi i farnu pryd i/a ddylid ymyrryd.



## Egwyddorion gwaith-chwarae





- Mae pob plentyn a pherson ifanc angen chwarae. Mae'r awydd i chwarae'n un greddfol. Mae chwarae'n angen biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i ddatblygiad iechyd a llesiant unigolyn a chymunedau.
- Mae chwarae yn broses a ddewisir yn rhydd, a gyfarwyddir yn bersonol ac a gymhellir yn gynhenid. Hynny yw, y plant a'r bobl ifanc fydd yn penderfynu a rheoli cynnwys a bwriad eu chwarae, trwy ddilyn eu greddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain.
- Prif ffocws a hanfod gwaith-chwarae yw cefnogi a hwyluso'r broses chwarae a dylai hyn hysbysu datblygiad polisi chwarae, strategaeth, hyfforddiant ac addysg.
- I weithwyr chwarae, y broses chwarae fydd flaenaf a bydd gweithwyr chwarae'n gweithredu fel eiriolwyr dros chwarae wrth ymwneud ag agendâu gaiff eu harwain gan oedolion.
- Rôl y gweithwyr chwarae yw cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu gofod ble y gallan nhw chwarae.
- Caiff ymateb gweithwyr chwarae i chwarae plant a phobl ifanc ei seilio ar wybodaeth gyfredol, gref o'r broses chwarae, ac arfer myfyriol.
- Mae gweithwyr chwarae'n cydnabod eu heffaith eu hunain ar y gofod chwarae yn ogystal ag effaith chwarae plant a phobl ifanc ar y gweithwyr chwarae.
- Bydd gweithwyr chwarae'n dewis arddull ymyrryd sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ymestyn eu chwarae. Dylai ymyrraeth gweithwyr chwarae bob amser daro cydbwysedd rhwng y risg â'r budd datblygiadol a llesiant plant.